

Crynodeb o'r diwygiadau i'r Rheoliadau Academaidd ar gyfer 2024/25

Cyd-destun

Yn ddiweddar, cynhaliodd y Brifysgol ei hymarfer blynyddol o adolygu'r Rheoliadau Academaidd, a'r canlyniad yw cyhoeddi Rheoliadau Academaidd 2024/25. Cymeradwywyd y rhain gan y Bwrdd Academaidd ar 23 Hydref 2024. Cadarnhawyd gan y Bwrdd Academaidd y bydd y rheoliadau academaidd cymeradwy yn berthnasol i bob myfyriwr sydd wedi cofrestru gyda'r Brifysgol.

Diwygiadau ac ychwanegiadau allweddol

- Gwybodaeth benodol am HNC a HND.
- Manylion i gydnabod strwythur Lefel gofynnol PSRB o fewn dyfarniadau.
- Canllawiau i fyfyrwyr sy'n dymuno gwneud cais am fwy nag un rhaglen.
- Gwybodaeth am y Cyfnod Cofrestru hwyaf ar gyfer DipHEs ac Ychwanegiadau Gradd Baglor.
- Manylion am reoliadau digolledu ar gyfer agweddau Addysgu ac Ymchwil mewn dyfarniadau PGT, gan gynnwys mai'r pwynt terfyn yw'r pwynt digolledu.
- Cefnogaeth i Fyrddau Asesu gael pŵer i arfarnu a gweithredu ar amgylchiadau unigol.
- Rheoliadau sy'n ymdrin â'r weithdrefn pan fydd myfyriwr yn 'Mynd yn rhy bell' o ran cronni credydau.
- Ailgyflwyno'r rheoliad canlynol:
“Os yw myfyriwr wedi cael ei dynnu'n ôl o raglen am fethiant academaidd neu resymau disgyblu, ni chaniateir iddo wneud cais arall am yr un rhaglen. Bydd unrhyw gais am raglenni amgen yn cael ei ystyried gan y Tîm Derbyn Canolog mewn ymgynghoriad â Chynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr ac Arweinydd y Rhaglen.”
- Strwythur rhaglen manwl a gwybodaeth am gynnydd ar gyfer Rhaglenni Gradd Israddedig Dwy-flynedd (h.y. Graddau Carlam).
- Newid i ganiatáu 40 credyd (o 30 credyd) i drywyddu ac ailsefyll wrth symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf (h.y. Rhaid cyflawni o leiaf 80 credyd cyn gallu symud ymlaen).
- Manylion ac eglurhad ar benderfyniadau dosbarthiad Ffiniol, yn enwedig o ran Graddau Meistr Integredig.